Ysgol Dyffryn Conwy yn dathlu eu canlyniadau gorau hyd yma!

Canlyniadau TGAU 2016

Mae Ysgol Dyffryn Conwy yn falch iawn o gyhoeddi ein canlyniadau TGAU gorau eleni! Mae ein disgyblion wedi gwneud yn arbennig o dda efo cynnydd o bron 8% yn y prif dangosydd (y canran o 5 neu mwy A*-C)eleni yn sgil canlyniadau mathemateg rhagorol a cynnydd ar draws y pynciau iaith. Mae'r rhain yn ganlyniadau rhagorol a rydym yn hynod falch o'n disgyblion a'u llwyddiannau. Ar ran yr ysgol gyfan rydym yn eu llongyfarch ein holl disgyblion a'u teuluoedd ar y canlyniadau gwych hyn! Mae ein llwyddiant yn holl haeddiannol ac edrychwn ymlaen at groesawu'r mwyafrif ohonynt yn ôl i'r 6ed dosbarth.

Unwaith eto mae nifer o'n disgyblion wedi cyrraedd yr uchelfannau yn eu canlyniadau, gan gynnwys Anna Carpena 8A*, 4A, Rhagoriaeth mewn mathemateg ychwanegol a gradd B mewn AS Eidaleg; Cadi Edwards 8A*,3A a Clod yn ei mathemateg ychwanegol; Amelia Maddox 6A*, 4A a rhagoriaeth yn ei mathemateg ychwanegol. Llwyddodd sawl disgybl hefyd i gyrraedd y graddau uchaf gan gynnwys: Gwion Jones 4A*, 4 A a 2B; Chloe Congreve 3A*, 4A a 3B; Elin Cawley 1A*, 6A, B a C; Rhydian Jones a Hannah Roberts 1A*, 5A, 4B yr un; ac Owain Williams A*,5A,2B a C. Mae ein llongyfarchiadau yn mynd i'r 9 ohonynt ar ganlyniadau arbennig iawn, ac i'r holl ddisgyblion eraill a lwyddodd i gyrraedd y graddau uwch mewn nifer o'u pynciau.

Fel pennaeth rwyf yn hynod falch o weld yr holl wynebau hapus sy'n cadarnhau'r hyn mae llwyddiant yn ei olygu i'n pobl ifanc, pa mor galed maen nhw wedi gweithio yn enwedig dros y dwy flynedd diwethaf. Maent yn llawn haeddu eu llwyddiant ac yn glod mawr i'w teuluoedd, i'r ysgol a'r gymuned ehanach! Rwyf yn eu llongyfarch nhw a'u teuluoedd. Hoffwn hefyd gymryd y cyfle i ddiolch i'n holl staff am eu gwaith caled parhaol. Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn un gwych ac arbennig i'r ysgol, ei disgyblion a'r gymuned ehangach. Mae heddiw, fel mae hi bob blwyddyn yn ddiwrnod i'r disgyblion, eu llwyddiannau, a'u camau nesaf - mae digon i'w ddathlu. Dymunaf yn dda iddynt yn eu dyfodol!

Ysgol Dyffryn Conwy celebrate their best GCSE results so far!

Ysgol Dyffryn Conwy is delighted to announce our best ever results this year. Our pupils have really excelled themselves this year with an almost 8% increase on previous results in the main indicator for 5A*-Cs or more following exceptional results in mathematics and an increase across the language GCSEs. These are excellent results and we are extremely proud of our pupils' successes and congratulate them and their families on these superb results! Their successes are well deserved and we look forward to welcoming the majority of pupils back to the 6th form.

Once again a number of pupils have reached the hights with a number of A*/As. This year, our highest achieving pupils include: Anna Carpena 8A*, 4A, as well as a Distinction in additional mathematics and a B grade in AS Italian; Cadi Edwards 8A*, 3A and a Merit in additional mathematics; also excelling was Amelia Maddox with 6A*, 4A and a Distinction in additional mathematics. A number of other pupils also gained above the 5A*/A threshold this year including: Gwion Jones 4A*, 4A, 2B; Chloe Congreve 3A*, 4A, 3B; Elin Cawley 1A*, 6A, B a C; Rhydian Jones and Hannah Roberts 1A*, 5A, 4B each; and Owain Williams A*,5A,2B a C. Our congratulations go to all 9 – these are superb results! - along with congratulating all our other pupils who have achieved in the highest grades across many of their subjects.

As a Headteacher I am extremely proud to see all the happy faces confirming what success means to our young people and how hard they have worked especially over the last two years. They fully deserve their success and they are a credit to their families, the school and to the wider community. I would also like to

take this opportunity to thank all my staff for their continuous hard work. This has been another excellent year for the school. Today, as it is every year, is a day for the pupils and their successes. It's an opportunity to consider next steps and to celebrate. I wish them all the best in the future!

Elan Davies, Pennaeth/Headteacher, Ysgol Dyffryn Conwy, 25/08/16